

**PWYLLGOR ADFER**  
**4 TACHWEDD 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Adfer Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd lau, 4 Tachwedd 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Richard Jones (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Helen Brown, Clive Carver, Geoff Collett, Paul Cunningham, David Healey, Patrick Heesom, Joe Johnson, Hilary McGuill, Vicky Perfect, a Kevin Rush

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Cyngorydd Ian Roberts - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Cyngorydd Christine Jones – Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cyngorydd Paul Johnson – Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol, y Cyngorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, y Cyngorydd Glyn Banks, Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chludiant, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Weithredwr (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr – Cefnogaeth Busnes a Llywodraethu Ysgol, Ymgynghorydd Perfformiad Strategol, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, ac Arweinydd Tîm, Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Billy Mullin a Dave Hughes, a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

**42. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**43. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi.

Materion sy'n codi

Yng nghofnod rhif 34, mynegodd y Cynghorwyr Jones a Bateman eu siomedigaeth nad oedd adroddiad wedi'i gynnwys yn y rhaglen mewn perthynas â phenderfyniad (c), "bod adroddiad statws ar fusnesau ar draws Sir y Fflint, i gynnwys gwybodaeth ar yr effaith economaidd, i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol".

Ar gofnod rhif 36 a'r risgiau yn y portffolio Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi, dywedodd y Cyngorydd Jones y byddai'n trafod a nhw y tu allan i'r cyfarfod gyda'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi).

Cynigiwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyngorydd Marion Bateman ac fe'u heiliwyd gan y Cyngorydd Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

#### **44. AMCANION ADFERIAD CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ac eglurodd bod Cymru, a rhanbarth Gogledd Cymru, yn parhau i fod yn yr ail gyfnod adferiad yn dilyn pandemig COVID-19, a bod y sefyllfa endemig barhaus yn cael ei reoli.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion ar adferiad cyffredinol y sefydliad ac eglurodd y swyddogion perthnasol hyn yn llawn:

##### **Amcanion Cyllid:**

- Sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad.
- Parhau i fwyhau cymorth gwladol o'r gronfa galedi ac unrhyw gronfa arall y llywodraeth.
- Parhau i adfer ac adennill incwm i lefelau darged.
- Parhau i adfer ac adennill incwm i lefelau darged.
- I gynnal cronfeydd wrth gefn a balansau ar lefelau sydd yn bodloni anghenion y Cynghorau.

##### **Amcanion y Gweithlu:**

- Sicrhau bod y dyletswyddau cyfreithiol a moesegol y cyflogwr yn parhau i'w fodloni yn yr adferiad.
- Parhau i adfer a diogelu lles y gweithlu dros amser
- Cytuno a gweithredu model gweithredu newydd a threfniadau gweithio sydd wedi mwylhau'r defnydd o ddatrysiadau gweithlu digidol a thechnoleg.
- Parhau i adolygu cyfleoedd ar gyfer ail-lunio sefydliadol ar y dysgu a wnaethpwyd o'r ymateb i argyfwng a chyfnodau adfer.

##### **Amcanion Llywodraethu:**

- Adfer cyfraddau casglu Treth Y Cyngor, Ardreth Annomestig Genedlaethol, Mân-ddyledion a rhenti tai at lefelau darged.
- Cwblhau'r newid i fodel wedi setlo ar gyfer cyfarfodydd modern
- Adfer hygyrchedd at, a chyfranogiad gan y cyhoedd mewn cyfarfodydd aelod.
- Parhau i gefnogi ac ehangu modd digidol o ddarpariaeth gwasanaeth

Yr amcanion ar gyfer adfer gwasanaeth oedd:

- Sicrhau bod parhad busnes i bob gwasanaeth
- Bodloni amcanion adfer penodol ar gyfer pob portffolio fel y nodir yn eu cynlluniau adfer busnes unigol.
- Cynllunio ar gyfer adferiad llawn o wasanaethau yn erbyn unrhyw ôl-groniad a lleihau safonau perfformiad dros dro.
- Sicrhau bod cynllunio hapddigwyddiad mewn lle os bydd dychwelyd i'r ymateb trydydd cam

Yr amcanion ar gyfer adfer cymunedol oedd:

- Diogelu iechyd a lles cymunedau lleol
- Cefnogi a diogelu'r bobl fwyaf diamddiffyn yn y gymdeithas

- Cefnogi adferiad cymunedau ac adeiladu eu cadernid
- Cefnogi adferiad economaidd ein cymunedau a'n sector busnes lleol

Yr amcanion ar gyfer adferiad rhanbarthol oedd:

- Ymgysylltu'n llawn gyda'r strategaeth adferiad rhanbarthol ac fel aelod o'r Grŵp Cydlynu Adferiad.
- Rheolaeth effeithiol o weithredu strategaeth Atal ac Ymateb yn lleol ar gyfer y pandemig
- Rheolaeth effeithiol o weithredu Rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu yn lleol
- Chwarae rhan lawn wrth gynllunio a darparu rhaglenni partneriaeth h.y. y rhaglen frechu

Ailadroddodd y Cynghorydd Jones ei sylwadau blaenorol ar Adferiad Cymunedol, sef ei fod wedi disgwyl bod adroddiad ar fusnesau ledled Sir y Fflint, gan gynnwys gwybodaeth ar yr effaith economaidd, wedi cael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn. Eglurodd y Prif Weithredwr bod y gwaith yn cael ei gyflawni ar yr adroddiad a fydd yn dangos cefnogaeth ar gyfer canol trefi ac i ysgogi ac adfywio'r ardaloedd hynny. Bydd yr adroddiad yn cynnwys manylion ar gymryd unedau busnes. Roedd yn adroddiad cymhleth a bydd yn barod i'w gyflwyno erbyn y cyfarfod ym mis Ionawr. Roedd adferiad yn digwydd dros nifer o flynyddoedd felly roedd ymateb a ystyrir yn arwyddocaol.

Dywedodd y Cynghorydd McGuill ei bod wedi gwneud cais am wybodaeth ar effaith y casgliad ardrethi busnes gan fusnesau sy'n cau. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar lafar ac eglurodd bod cwmnïau a oedd yn cael trafferth i dalu eu rhent wedi trefnu eu bod yn cael seibiant rhag talu, neu dalu llai o swm, ac i'w ad-dalu ar ddyddiad diweddarach a oedd yn golygu nad oedd rhaid iddynt adael yr unedau.

Cynigiodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd McGuill.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cael eu sicrhau gan gynnydd i fodloni'r amcanion adferiad ond wedi disgwyl adroddiad ar effaith economaidd yn Sir Y Fflint yn gynt na mis Ionawr.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai newid bach yn nhrefn eitemau'r rhaglen. Eitem rhif 6 ar y Rhaglen – Risgiau a Materion o fewn Portffolio ac Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn cael ei ystyried cyn eitem rhif 5 ar y rhaglen - Proffil Risg Adferiad Corfforaethol.

### **45. RISGIAU A MATERION O FEWN PORTFFOLIO AC ADBORTH GAN Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ac eglurodd bod y Cynlluniau Portffolio Adfer Busnes wedi'i ddatblygu ar gyfer gadael cyfnod ymateb cyntaf y pandemig yn 2020.

Roedd gan y Pwyllgor Adfer trosolwg o'r Cynlluniau Adfer Busnes ar gyfer y pum portffolio yn ystod y cyfarfodydd diweddar. Yn ystod pob un o'r cyfarfodydd, roedd y Prif Swyddogion wedi amlygu meysydd o risg sylweddol. Roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno cynnydd a diweddariadau ar y meysydd risg ar gyfer pob un portffolio.

### **Addysg ac Ieuenctid**

Dywedodd yr Uwch-Reolwr - Cymorth i Fusnesau a Llywodraethu Ysgol mai'r meysydd risg a'r ymatebion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant oedd: Rheoli ansicrwydd o ran newidiadau gweithredol a fydd angen eu gweithredu o bosib.

*Daeth adroddiad i law'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant ar 16 Medi a oedd yn rhoi trosolwg o'r mesurau diwygiedig COVID-19 ar gyfer gweithrediad diogel o ysgolion. Roedd y Pwyllgor yn canmol yr ysgolion am y ffordd cadarnhaol yr oeddynt wedi ailagor ym mis Medi a roed llythyr o ddiolch wedi cael ei anfon at holl staff yr ysgolion gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor. Hefyd roedd y Pwyllgor wedi cael diweddariad ar lafar ar 21 Hydref. Nodwyd y diweddariad ond codwyd bryderon ar y diffyg athrawon cyflenwi, cynorthwywyr addysgu a gofalwyr mewn ysgolion.*

- Yr effaith y mae'r pandemig wedi'i gael ar blant a phobl ifanc, yn benodol ar eu hiechyd a lles emosiynol a'u gallu i ymgysylltu ag addysgu.

*Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant diweddariad ar lafar ar 21 Hydref. Er bod y Pwyllgor yn bryderus ar y pwysau a roddwyd ar y Swyddogion ac Ysgolion, roeddynt yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi bod y Tîm Prif Swyddog yn gwneud popeth o fewn eu gallu i reoli'r risg.*

- Cadernid ysgolion i reoli nifer arwyddocaol o newidiadau h.y. cwricwlwm newydd, trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a chyflwyniad o arolygiadau ysgol.

*Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant diweddariad ar lafar ar 21 Hydref. Er bod y Pwyllgor yn bryderus ar y pwysau a roddwyd ar y Swyddogion ac Ysgolion, roeddynt yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi bod y Tîm Prif Swyddog yn gwneud popeth o fewn eu gallu i reoli'r risg.*

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill am ddiweddariad ar gyflwyno monitro CO2 i ysgolion. Eglurodd yr Uwch-Reolwr y byddai pob ysgol wedi cael eu monitro erbyn diwedd y mis??

### **Tai ac Asedau**

Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r meysydd o risg oedd:

- Roedd incwm rhenti dal yn cael eu heffeithio gan y pandemig a phan roedd y cynllun ffyrlo a diogelwch eraill wedi dod i ben roedd y sefyllfa yn gallu gwaethygu.

*Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned, Tai ac Asedau yn ystyried yr adroddiadau diweddar arferol ar Incwm Tai a Diwygio'r Gyfundrefn Les yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2021. Yn ogystal bydd y Pwyllgor yn cael ac yn ystyried y Gyllideb Y Cyfrif Refeniw Tai ar*

*gyfer 2022/23 a Chynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2022.*

- Roedd cyflwyniadau digartrefedd yn cynyddu gan fod amddiffyniadau cyfredol o ran troi allan a ffyrlo yn dod i ben ac roedd landlordiaid yn cymryd y camau i ddechrau a pharhau ymlaen gydag throi pobl allan oedd wedi'i gohirio'n flaenorol.  
*Roedd yr Hwylusydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned, Tai ac Asedau yn cysylltu â'r swyddogion priodol er mwyn cyflwyno adroddiad ar Ddigartrefedd mewn cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.*
- Roedd diffyg cyflenwadau deunydd crai wedi arwain at gostau cynyddol, oedi mewn rhaglenni ac achosion cynyddol o anghydfodau dan gcontract.  
*Rhoddodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned, Tai ac Asedau ystyriaeth i ddiweddariad ar lafar ar 13 Hydref. Cafodd y Pwyllgor ei sicrhau bod y risg yn cael ei reoli'n ddigonol.*

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd McGuill, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n darparu gwybodaeth ar y nifer o geisiadau am grantiau caledi tenantiaid sydd wedi cael eu gwneud, a faint sydd wedi cael eu cymeradwyo.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones gwestiwn am y risg digartrefedd ac eglurodd y Prif Weithredwr bod y Grant Cymorth Tai o £1.87m yn galluogi'r Tîm Datrysiadau Tai i gynyddu eu cymhwyster staffio, ac unrhyw wasanaethau cynnal a gomisiynir i gefnogi pobl yn gynt a darparu pecyn cyfannol ar gyfer pobl sydd bron â datgan eu bod yn ddigartref

### **Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi**

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) mai'r meysydd o risg oedd:

- Cadernid gwahanol dimau oherwydd y galw digyffelyb i wasanaethau yn ystod y sefyllfa argyfwng.  
*Rhoddodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi ystyriaeth at adroddiad ar Orfodaeth Cynllunio ar 14 Medi, a oedd yn rhoi diweddariad ar y perfformiad y gwasanaeth gorfodaeth cynllunio a dangos y system meddalwedd newydd AGILE. Bydd diweddariad pellach yn cael ei ystyried ym mis Mawrth 2022 i fonitro cynnydd.*
- Cyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol a gweithredu'r system swyddfa gefn.  
*Roedd yr Hwylusydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi yn cysylltu â'r swyddogion priodol er mwyn cyflwyno adroddiad ar CDLI mewn cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. Cafodd y CDLI ei yrru gan y Grŵp Strategol Cynllunio yn cynghori'r Cabinet a nid oedd y Archwiliad Cyhoeddus wedi dod i ben eto.*
- Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd lle bu galw aruthrol ar adnoddau yn ystod yr argyfwng.  
*Roedd y risg uchod i'w ychwanegu i Raglen Gwaith i'r Dyfodol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi.*

Awgrymodd y Prif Swyddog y gallai ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol ar y risg sy'n berthnasol i'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, yn adlewyrchu ar y ddwy flynedd flaenorol yn y gwasanaeth a beth roeddynt yn ei wynebu yn y dyfodol.

O ran y CDLI, eglurodd y Prif Swyddog bod llythyr wedi dod i law gan yr Arolygydd yn gofyn yn ffurfiol bod yr elfen dai, sy'n cynnwys 300 o dai, yn cael ei dynnu oddi ar y Cynllun gan ei bod yn teimlo nad oedd y safle yn lleoliad addas ar gyfer datblygiad tai. Roedd am gael ei gadw fel dyraniad yn y CDLI ond ar gyfer defnydd cyflogaeth a chanolbwynt masnachol yn unig. Gofynnodd y Cynghorydd Jones os bydd cais am safle arall ar gyfer 300 o dai, a dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn credu y byddai hynny yn debygol.

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 19 Tachwedd ac yna ymlaen i gyfarfod arbennig o'r Cabinet ar 30 Tachwedd cyn y cyfnod ymgynghori chwe wythnos.

Gofynnodd y Cynghorydd Bateman am ddiweddariad ynghylch a fyddai ymweliadau safle Pwyllgor Cynllunio yn ailddechrau. Eglurodd y Prif Swyddog eu bod yn ystyried ailddechrau o fis Tachwedd ymlaen, fodd bynnag pwysleisiodd mai'r Cadeirydd fydd yn penderfynu os bydd angen ymweliad safle neu beidio.

### **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) mai'r meysydd risg oedd:

- Recriwtio staff i weithio yn y sector, gan gynnwys gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol a gwaith cymdeithasol uniongyrchol.
- Breuder y farchnad nyrsio Henoed Bregus eu Meddwl (EMI) a recriwtio staff.
- Cyllid a ffioedd sydd yn gysylltiedig â sadrwydd marchnad.  
*Rhoddodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ystyriaeth sadrwydd y farchnad gofal cymdeithasol (i gynnwys ffioedd a chyllid) a phwysau gweithlu gofal cymdeithasol ac ymateb yn y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar 30 Medi.*  
*Rhoddwyd sicrwydd bod gwaith yn parhau yn lleol, yn rhanbarthol a chenedlaethol i ymateb i'r heriau a wynebir.*

Mynegodd y Cynghorydd Jones ei bryder ar y geirfa "Fodd bynnag, er yr holl waith sydd wedi ei wneud, mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn sefyllfa difrifol ac yn dirywio" yn yr adroddiad, a gofynnodd petai modd lliniaru'r sefyllfa. Eglurodd y Prif Swyddog mai'r hyn a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad oedd y sefyllfa genedlaethol a chydabyddir hyn. Rhoddodd sicrwydd er yr holl heriau bod y gwasanaethau yn dal i fynd oherwydd cadernid y swyddogion. Er hynny roedd y sefyllfa wedi gwella ychydig ers ysgrifennu'r adroddiad, gyda chymau helaeth a chynhwysfawr yn cael eu cyflawni i fynd i'r afael â'r materion. Gofynnodd y Cynghorydd Jones os oedd unrhyw beth y gallai Aelodau eu gwneud ac ymatebodd y Prif Swyddog i gydnabod ei bod yn anodd iawn recriwtio o fewn gofal cymdeithasol, a bod sicrhau bod pecyn cynaliadwy hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol yn allweddol. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o reoli timau a'r gweithlu i gael parch a chydabyddiaeth am eu gwaith. Dywedodd y Cynghorydd Jones bod angen canmol y gwasanaeth. Eglurodd y Prif

Weithredwr ei fod ef a'r Prif Swyddog yn cyfarfod cydweithwyr iechyd a Llywodraeth Cymru yn rheolaidd a bod achos crys yn cael ei wneud i'r Llywodraeth sydd yn gefnogol.

Ailadroddodd y Cynghorwyr Roberts a Christine Jones y manylion am y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'r angen i ganmol ac annog staff.

Mynegodd y Cynghorydd Bateman ei diolch i'r Prif Swyddog a'i dîm, a chyfeiriodd at gyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Chymdeithasol a gynhaliwyd y bore hwnnw, lle'r oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol. Roedd yn falch o nodi bod 370 o gleifion yn barod i gael eu rhyddhau mewn tair ysbyty a fydd angen pecynnau gofal, a dim ond 10 o'r rheiny oedd yn Sir Y Fflint.

Dywedodd y Cynghorydd McGuill bod y proffesiwn gofal angen ei rannu mewn ysgolion, gan gynnwys manylion ar y cynllun Micro-ofal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Carver, dywedodd y Prif Swyddog bod y mwyafrif o ofalwyr yn Sir y Fflint wedi derbyn eu brechiadau COVID-19.

### **Gwasanaethau Stryd a Chludiant**

Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) mai'r meysydd risg oedd:

- Gostyngiad yn nifer y gweithwyr a'r contractwyr rheng flaen i gyflawni gwasanaethau yn ddiogel oherwydd y gofyn i hunan-ynysu.
- *Byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi yn ystyried adroddiad ar y risg hwn ar 9 Tachwedd.*
- Methu symud ymlaen â phrosiectau gwella seilwaith allweddol oherwydd diffyg cadernid mewn staff, contractwyr a'r gadwyn gyflenwi.  
*Byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi yn ystyried adroddiad ar y risg hwn ar 9 Tachwedd.*
- Methu cael cymeradwyaeth reoleiddiol (cynllunio; draenio; trwyddedu amgylcheddol) i symud prosiectau seilwaith allweddol ymlaen mewn modd amserol oherwydd oedi i ddatblygu ceisiadau.
- *Byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi yn ystyried adroddiad ar y risg hwn ar 9 Tachwedd.*
- Gwasanaethau bws cyhoeddus (masnachol a rhai â chymhorthdal) yn anghynaliadwy oherwydd y nifer îs o deithwyr.
- *Roedd y risg uchod i'w ychwanegu i Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi.*
- Costau gweithredu cludiant wedi cynyddu oherwydd y nifer o weithredwyr cludiant sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau.
- *Roedd y risg uchod i'w ychwanegu i Raglen Gwaith i'r Dyfodol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi.*

Rhoddodd y Cynghorydd Bateman ganmoliaeth i'r gwasanaeth a gofynnodd sut oedd tâl o'i gymharu â'r siroedd y gororau. Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd dadansoddiad wedi'i gyflawni ond ei bod yn ymwybodol bod staff mewn swyddfeydd yn cael tâl llai yng Nghymru. Dywedodd yr Uwch-Reolwr

- Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol y gellir edrych ar dâl mewn siroedd y gororau. Yn ogystal, roedd y sector breifat yn cynnig cymhelliad a thaliadau cadw a ni allai'r Cyngor gystadlu â hyn.

Croesawodd y Cynghorydd Cunningham bod Sir y Fflint yn hyfforddi gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm. Eglurodd y Prif Weithredwr a'r Uwch-Reolwr ar ôl i yrwyr gael eu hyfforddi, os byddant yn gadael yr awdurdod yn fuan ar ôl dod yn gymwys, byddai cost yr hyfforddiant yn cael ei dynnu naill ai o'u cyflog neu gasgliad dyledion.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Bateman, gan gynnwys dau argymhelliad arall:

- I fynegi diolch i holl staff y rheng flaen Sir y Fflint, ond yn arbennig y rhai sy'n gweithio o fewn adrannau Gofal Cymdeithasol a Strydwedd a Chludiant, roedd wedi ei gydnabod eu bod wedi bod o dan bwysau a straen sylweddol;
- Bod holl weithlu'r Cyngor wedi eu sicrhau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith y maent yn ei gyflawni; a

Yn ogystal cytunwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yn ysgrifennu at y Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru eraill i fynegi pryderon sydd wedi eu mynegi, yn arbennig o ran cadw staff yn y sector gofal iechyd a chadw staff allweddol eraill gan fod y farchnad gyflogaeth wedi dod yn fwy bywiog.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y cynnydd y meysydd o risg a amlygwyd o fewn y pum portffolio a nodwyd yn y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor hwn yn cael eu nodi;
- (b) I fynegi diolch i holl staff y rheng flaen Sir y Fflint, ond yn arbennig y rhai sy'n gweithio o fewn adrannau Gofal Cymdeithasol a Strydwedd a Chludiant, roedd wedi ei gydnabod eu bod wedi bod o dan bwysau a straen sylweddol;
- (c) Bod holl weithlu'r Cyngor wedi eu sicrhau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith y maent yn ei gyflawni; a
- (ch) Bod Cadeirydd y Pwyllgor, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yn ysgrifennu at y Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru eraill i fynegi pryderon sydd wedi eu mynegi, yn arbennig o ran cadw staff yn y sector gofal iechyd a chadw staff allweddol eraill gan fod y farchnad gyflogaeth wedi dod yn fwy bywiog.



Cyflwynodd Jay Davies yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad ar y Gofrestr Risg a Mesurau Lliniaru Adferiad Corfforaethol, a oedd wedi eu nodi yn atodiadau 1 a 2 o'r adroddiad.

Roedd risgiau yn parhau i gael eu rheoli yn dda fel yr oeddynt drwy gydol y pandemig. Roedd 34.3% o risgiau wedi'u nodi'n wyrdd, 65.7% wedi'u nodi'n oren a 0% wedi'u nodi'n goch.

Roedd cyfanswm o 35 risg a oedd wedi eu cau yn flaenorol; roedd 34 o'r rheiny wedi cau oherwydd eu bod wedi cyrraedd cyfradd risg darged. Roedd un risg wedi cau oherwydd dyblygiad a nid oedd dim risg i'w gau yn yr adolygiad hwn.

Roedd 'CF14 cynnydd mewn effeithiau ôl-ddyledion rhent ar sadrwydd Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai' wedi ei dynnu yn dilyn cytundeb gan y Pwyllgor yn y cyfarfod blaenorol, oherwydd byddai'r risg yn cael ei adrodd drwy'r gofrestr risg Tai ac Asedau a fyddai'n lleihau dyblygiad.

Eglurodd yr Uwch-Reolwr - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol bod tri risg a oedd yn cynyddu mewn risg, sef:

- CW14 – cynnydd mewn trosiant gweithlu am fod gweithwyr yn gwneud dewisiadau bywyd personol ac effaith anweddolrwydd a newid yn y farchnad cyflogaeth sydd wedi effeithio ar recriwtio i swyddi gwag yn llwyddiannus.
- CW16 – absenoldeb salwch cynyddol sy'n gysylltiedig i COVID a ddim yn gysylltiedig i COVID.
- CW17 – nifer cynyddol o absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y ddau risg pellach sydd yn cynyddu yn y tuedd risg oedd:

- CG04 – Gwyro adnoddau i ymateb rheoli argyfwng a gwaith adfer wedi oedi ar weithredu prosiectau digidol a seilwaith allweddol.
- CG14 - oedi neu gost gynyddol o gael dyfeisiau digidol oherwydd bod y galw parhaus yn codi o ymateb i'r pandemig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd McGuill ar ddenu pobl i weithio i'r Cyngor, eglurodd yr Uwch-Reolwr - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol bod cyfres o fuddion ar gael i weithwyr a byddent yn cael eu hysbysebu ymhellach.

Cynigiodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Cunningham.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r gofrestr risg ddiweddaraf a chamau lliniaru risg o fewn y portffolios corfforaethol a nodi'r risgiau cynyddol sy'n berthnasol i recriwtio, absenoldeb salwch ac adnoddau.

**47. DIWEDDARIAD ADFERIAD CYMUNEDOL**

Gohiriwyd yr adroddiad a chyflwyniad tan y cyfarfod ym mis Ionawr. Bydd sleidiau'r cyflwyniad yn cael eu hanfon at yr Aelodau a dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau at y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi). Bydd fersiwn diweddaraf o'r sleidiau yn cael eu cyflwyno y bore canlynol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad a'r cyflwyniad yn cael ei ohirio tan fis Ionawr.

**48. DIWEDDARIAD AM ADFERIAD RHANBARTHOL**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar lafar ar adferiad rhanbarthol. Eglurodd bod y cyfraddau haint yn gostwng, fodd bynnag roedd dau faes o drosglwyddiad cymunedol – roedd lefelau uwch o haint ymysg grwpiau plant ifanc ac oedolion ifanc.

Mynegodd yr angen i annog pobl cymwys i gael y brechiad.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r wybodaeth.

**49. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cytunwyd bod yr adroddiadau canlynol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 6 Ionawr 2022:

- Adroddiad effaith economaidd ar fusnesau ledled Sir Y Fflint
- Diweddariad risg gan y Pwyllgorau Craffu a Throsolwg
- Portffolio cofrestri risg

Rhoddwyd awdurdod i'r Prif Weithredwr, drwy ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Derbyn yr adroddiadau ar (1) Effaith economaidd ar fusnes ledled Sir y Fflint (2) diweddariad risg gan y Pwyllgorau Craffu a Throsolwg; a (3) portffolio cofrestri risg; a
- (b) Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr, drwy ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**50. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG**

Dim.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 5.08 p.m.

.....  
**Y Cadeirydd**